**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**POLISI IAITH**

1. Nod Strategol Cyngor Cymuned Buan – mae gwarchod a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn nod strategol gan y Cyngor.

2. 'Iaith Weithredol' – Cymraeg yw iaith weithredol Cyngor Cymuned Buan. Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Cymuned Buan o fod yn uniaith Gymraeg.

3. Pe deuai unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg i gyfarfod o'r Cyngor neu pe deuai unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg yn aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu pa fodd y bydd yn dilyn ac yn deall gwaith y Cyngor. Os bydd hynny'n golygu unrhyw gôst ariannol yr unigolyn fydd yn ysgwyddo baich y gost honno.

4. Cynhelir pob cyfarfod drwy gyfrwng yr Iaith Weithredol.

5. Cofnodir cyfarfodydd y Cyngor a'i is-bwyllgorau yn yr Iaith Weithredol yn unig.

6. Mae gan aelodau o'r cyhoedd haw li archwilio'r Cofnodion drwy drefniant â'r Clerc. Bydd y Cyngor yn caniatau cyfieithu'r Cofnodion i unrhyw iaith, ond ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddarparu cyfieithiad Yn y cyfryw amgylchiadau ni fydd y Cyngor yn ysgwyddo'r baich o dalu am gyfieithu'r Cofnodion ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw wallau neu gamddehongliad a allai ymddangos mewn cyfieithiadau o'r cofnodion gwreiddiol. Y cofnodion gwrieddiol Cymraeg yw'r cofnodion cywir a'r cofnodion hynny sy'n sefyll.

7. Os bydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithiwr, bydd y Cymraeg yn gymhwyster hanfodol.

8. Pe bai anghysondeb neu wrthdaro rhwng y Polisi Iaith a pholisiau eraill neu reolau sefydlog yna'r Polisi Iaith fydd drechaf.

**Cyfiawnhad**

Sefydlir a chyfiawnheir yr hawl i weithredu trwy'r Gymraeg gan y canlynol:-

- Mewn deddfwriaeth ac yn benodol gan Fesur y Gymraeg 2011.
- Drwy fod Cyngor Cymuned Buan yn cynrychioli ardal y mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol trwch ei phoblogaeth ac felly'n briod iaith iddi a bod yr ardal, drwy hynny, yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol.
- Nid yw'n debygol fod holl gynhgorau Cymru yn cynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy hynny byddant yn ei thrin yn llai ffafriol ac yn gweithredu'n groes i Fesur y Gymraeg 2011.
- Y ffaith y gellir dysgu priod iaith yr ardal.
- Yn hanesyddol, o gyfrifiad i gyfrifiad, bu gostyngiad cyson yn nifer yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol trwch y boblogaeth. Bu i ysgymuno'r Gymraeg o weinyddiaeth gyhoeddus a bywyd sifig ran yn y crebachu hwn. Mae cydnabod mai'r Gymraeg yw priod iaith yr ardaloedd gweddillol hyn a'r sefydlu'n iaith weithredol eu gweinyddiaeth gyhoeddus yn ymgyrraeddd at ddiogelu neilltuolrwydd diwylliannol unigryw'r ardalaoedd hyn a'u cyfraniad at amrywiaeth ddiwylliannol y ddynoliaeth.

Pe ceir unrhyw feirniadaeth o'n polisi gan unigolion neu gan gyrff megis yr Awdurdodau Lleol neu'r Ombwdsman, fe'u hatgoffir o'r uchod.

Arwyddwyd:.........H. Willi........................................................

(Cadeirydd Cyngor Cymuned Buan)

Dyddiad:.......12-07-2024........................................................